
# Agoriadau Stori

Mae'n rhaid i chi gael dechrau stori bachog. Dyma 4 ffordd gwahnol o gychwyn stori...

Torrwyd y distawrwydd gan sgrech fyddarol. Sefais yn stond. Ni allwn symud. Yna, fe ddaeth o tuag atom...




Ydych chi 'rioed wedi meddwl sut fydde hi'n teimlo i gael eich lleihau i faint morgrugyn? Wel, gadewch i mi esbonio..

Doeddwn i 'rioed wedi meddwl y gallwn anadlu o dan y dwr, tan y diwrnod lle disgynnais i mewn i'r llyn. Yn lle boddi, roeddwn i'n gallu anadlu'n iawn!

"Mae'n rhaid i ni adael ar unwaith," dywedodd y ferch yn gadarn.

"Ond pam?" holodd ei ffrind mewn penbleth.

"Allai ddim esbonio, ond mae'n rhaid i ni fynd... RWAN!!"

# Agoriadau Stori

Rhaid cael rhywbeth mwy diddorol 'na
"Amser maith yn ôl..."

Agorais fy llygaid.
Doedd gen i ddim
syniad
ble'r oeddwn i...

Dwi'n dal i gofio'r
diwrnod yna...

"Paid a mynd i mewn
i fana," rhybuddiodd
Dad. Ond wnes i
ddim gwrando...

Doedd hi methu
credu ei llygaid.

O'i blaen, roedd...

"Heeeeelp!!"
sgrechiais, ond
doedd neb yn fy
nghlywed...



**Rhai syniadau i chi**

'Sgwennwch baragraff
agoriadol bachog i'ch stori